Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt
## Heol y Coleg
## Llanfair-ym-Muallt
## Powys
## LD2 3BW

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/12/2015**

## Cyd-destun

Ysgol gymysg, ddwyieithog i ddisgyblion 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, a gynhelir gan awdurdod lleol Powys. Mae 551 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd, a 92 yn y chweched dosbarth, o gymharu â 681 o ddisgyblion a 127 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth adeg yr arolygiad diwethaf yn 2010. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref fach Llanfair-ym-Muallt yng Nghanolbarth Cymru, ac mae'n gwasanaethu dalgylch mawr, sy'n wledig yn bennaf. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae tua 7.7% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 17.4%. Mae canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu'n raddol o 5.3% yn 2011.

Mae gan ddau ddeg tri y cant o ddisgyblion anghenion ychwanegol, sydd ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.4%. Mae gan lai nag 1% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol hefyd.

Mae bron pob disgybl yn Wyn Prydeinig. Mae tua 24% o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg, ac mae 11% yn siarad Cymraeg gartref. Mae llai nag 1% o ddisgyblion yn siarad iaith heblaw Saesneg fel eu mamiaith.

Mae'r pennaeth dros dro wedi bod yn ei swydd er mis Ebrill 2015. Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth dros dro a dau bennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt yn 2015-2016 yw £4,565. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd ym Mhowys yw £4,565 a'r isafswm yw £3,778. Mae Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt yn y safle cyntaf allan o'r 11 ysgol uwchradd o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- bu gostyngiad mewn safonau yng nghyfnod allweddol 4 bron ym mhob dangosydd allweddol am y pedair blynedd ddiwethaf
- nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o gyfnodau allweddol blaenorol
- mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi bod ymhell islaw deilliannau wedi'u modelu am y tair blynedd ddiwethaf
- yng nghyfnod allweddol 4, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched yn y rhan fwyaf o bynciau
- mae diffygion pwysig mewn addysgu ac asesu mewn tua hanner y gwersi
- mae disgyblion mewn rhai dosbarthiadau yn ymddwyn yn wael
- mewn tua hanner y dosbarthiadau, nid oes gan ddisgyblion yr hyder i weithio'n annibynnol ac maent yn dibynnu gormod ar eu hathrawon am gymorth

### Rhagolygon gwella

Bernir bod y rhagolygon gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- mae'r pennaeth dros dro a'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi cael eu penodi i'w swyddi yn ddiweddar ac nid ydynt wedi cael digon o amser i wneud gwelliannau
- nid oes gan yr ysgol hanes llwyddiannus o reoli newid a mynd i'r afael ag argymhellion o'r arolygiad blaenorol
- mae systemau i adolygu cynnydd a nodi meysydd i'w gwella, a chynlluniau i'w gwella nhw, yn newydd ac nid ydynt wedi cael amser i effeithio ar ansawdd yr addysgu na'r safonau
- nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi datblygu systemau effeithiol i wneud yn siŵr bod polisïau'r ysgol yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws pob pwnc
- mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinyddiaeth wedi cael eu diffinio yn ddiweddar, ond nid yw uwch arweinwyr wedi cael digon o amser i wella addysgu ac asesu oherwydd eu hymrwymiadau addysgu eu hunain
- mae systemau rheoli perfformiad a rheoli llinell yn newydd ac nid ydynt wedi cael amser i fod yn effeithiol o ran herio tanberfformio
- nid yw'r corff llywodraethol wedi herio arweinwyr a rheolwyr yn ddigon da i wrthdroi'r dirywiad mewn safonau a gwella ansawdd yr addysgu

## Argymhellion

A1 Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol

A2 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu a'r asesu

A3 Sicrhau bod systemau rheoli perfformiad a rheoli llinell yn effeithiol o ran herio unrhyw danberfformio

A4 Sicrhau bod hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn cael effaith ar wella ansawdd addysgu, asesu a deilliannau

A5 Gwella ymddygiad disgyblion yn y dosbarthiadau lle mae eu haflonyddwch yn tarfu ar gynnydd disgyblion eraill

A6 Sicrhau bod llywodraethwyr yn defnyddio data perfformiad yn effeithiol i fonitro a herio tanberfformio, yn enwedig safonau ac ansawdd yr addysgu

A7 Gwella'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd ar draws pob pwnc

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, bu dirywiad mewn safonau yng nghyfnod allweddol 4. Mae perfformiad yn y dangosyddion pwysicaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim. Nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o gyfnodau allweddol blaenorol ar draws llawer o ddangosyddion pwysig.

Nid yw perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi gwella dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac mae wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi bod yn gyson islaw deilliannau wedi'u modelu ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim am y tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n cael pum gradd A* i A mewn TGAU wedi gostwng dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac mae islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella rhywfaint dros y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi dirywio er 2012, ac mae wedi gosod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf o ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac mae wedi bod islaw'r perfformiad disgwyliedig am y tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ar sail lefelau cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch ymhell islaw deilliannau wedi'u modelu ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2015, bu gostyngiad sylweddol yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg.

Yng nghyfnod allweddol 4, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched bron ym mhob maes. Mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng perfformiad bechgyn a merched o ran cyflawni trothwy lefel 2 mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith. Fodd bynnag, nid yw merched yn perfformio cystal â bechgyn o ran cyflawni trothwy lefel 2 mewn mathemateg. Mae llawer llai o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn gwyddoniaeth. Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y dangosyddion pwysicaf yng nghyfnod allweddol 3.

Gan mai nifer fach o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, nid oes arfarniad o'r safonau a gyflawnwyd gan y disgyblion hyn.

Ym Mlwyddyn 13, er bod y sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog ar gyfer disgyblion wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae wedi bod uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg a'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'r sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog wedi gostwng yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac roedd islaw perfformiad cyfartalog ysgolion tebyg a'r awdurdod lleol yn 2015. Bu gwelliant cyson yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 3 o 2012 i 2014, ond dirywiodd y llynedd pan roedd perfformiad islaw cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg a'r awdurdod lleol. Bu gwelliant cyson yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A*-C mewn Safon Uwch rhwng 2011 a 2014, ond mae wedi gostwng i fod islaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg a'r awdurdod lleol yn 2015. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A*-A mewn Safon Uwch wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf, ond mae wedi gwella yn 2015 ac mae uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu o ysgolion a'r awdurdod lleol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae pob disgybl yn ennill cymhwyster cydnabyddedig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn parhau â'u haddysg neu'n dechrau swydd ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Mewn tua hanner y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da â'u dysgu. Mae gan lawer o ddisgyblion yn y gwersi hyn agwedd gadarnhaol at ddysgu. Maent yn cymryd rhan yn dda yn y dosbarth, yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth newydd, ac yn gwneud cynnydd addas. Mewn rhai dosbarthiadau, mae ymddygiad gwael disgyblion yn cyfyngu ar eu cynnydd. Mewn tua hanner y gwersi, mae disgyblion yn dibynnu gormod ar eu hathro am gymorth ac arweiniad. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn ddigon da. Yn ychwanegol, nid oes ganddynt yr hyder i weithio'n annibynnol a chymhwyso eu gwybodaeth i sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd.

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando ar gyfarwyddiadau eu hathro'n dda ac yn gwrando'n barchus ar eu cyfoedion wrth weithio mewn parau neu grwpiau. Mae merched yn llai hyderus na bechgyn wrth ateb cwestiynau ac wrth fynegi eu barn yn y dosbarth.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn ddestlus a chywir, gyda sillafu a gramadeg cywir. Fodd bynnag, nid yw disgyblion gallu canolig a gallu is yn cymryd digon o ofal â'u sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd addas ac yn defnyddio pedair rheol sylfaenol rhif, sef adio, tynnu, lluosi a rhannu, yn briodol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion gallu canolig ac is yn defnyddio'r medrau hyn yn hyderus i ddatrys problemau. Mae llawer o ddisgyblion yn casglu a defnyddio data yn briodol ac yn defnyddio'r data hwn i dynnu graffiau llinell a bar. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn dehongli tueddiadau mewn data nac yn dadansoddi eu graffiau yn llwyddiannus i lunio casgliadau ystyrlon.

At ei gilydd, mae disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn gwneud cynnydd addas â'u medrau siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mae safonau mewn Cymraeg mamiaith TGAU yn gadarn, ond mae cyflawniad bechgyn ymhell islaw cyflawniad merched. Mewn dwy o'r pum mlynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi bod yn y 50% uwch o

ysgolion tebyg ar sail canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2. Mae tuedd tair blynedd ar i lawr wedi bod mewn cyflawniad mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3, sydd wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ar gyfer dwy o'r tair blynedd ddiwethaf.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â'r achosion prin o fwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ddysgu ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi. Mae lefelau presenoldeb wedi gwella dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac maent yn agos at ddeilliannau wedi'u modelu ar sail lefelau cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf neu'r 50% is o ysgolion tebyg am y tair blynedd ddiwethaf.

Mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yn isel iawn ac yn cymharu'n gadarnhaol â ffigurau cenedlaethol a ffigurau ysgolion tebyg. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol dros y saith mlynedd ddiwethaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda. Maent yn gwrtais ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd a'u hathrawon. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, mae ymddygiad gwael disgyblion yn cyfyngu ar eu cynnydd nhw a chynnydd disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn rhoi cymorth da i'r gymuned leol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn Sioe Frenhinol Cymru. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda trwy gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, chwaraeon a gweithgareddau'n gysylltiedig â gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu pryderon. Mae gwaith yr ysgol a'r cyngor eco yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, nid yw wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd at ansawdd yr addysgu a'r asesu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol gwricwlwm priodol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, sy'n bodloni anghenion disgyblion trwy ddatblygu darpariaeth eang a chytbwys. Mae hyn yn cynnwys ystod o ddewisiadau cyffredinol a galwedigaethol, sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Trwy drefniadau partneriaeth effeithiol ag ysgolion eraill yn Ne Powys, gall disgyblion y chweched dosbarth ddilyn ystod eang o gyrsiau perthnasol. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth yn dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd addas mewn datblygu ei darpariaeth ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn rhifedd. Fodd bynnag, mae

cynnydd o ran datblygu llythrennedd ar draws yr ysgol wedi bod yn rhy araf. Mae'r ysgol wedi cyflwyno ychydig o fentrau diddorol ac effeithiol i ennyn diddordeb disgyblion, rhieni a staff mewn gweithgareddau darllen, ysgrifennu a rhif. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi cael digon o effaith ar safonau yn y meysydd hyn.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau Cymraeg ei disgyblion. Caiff tua 25% o ddisgyblion eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yng nghyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r disgyblion cyfrwng Saesneg yn dilyn y cwrs llawn Cymraeg ail iaith TGAU. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sy'n cefnogi eu datblygiad yn y Gymraeg a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, hanesyddol ac amgylcheddol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Eisteddfodau, ymweliadau diwylliannol a chyrsiau preswyl yn Llangrannog.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae ailgylchu, er enghraifft, wedi bod yn faes ymchwil penodol. Mae'r ysgol wedi cynnwys disgyblion mewn gweithgareddau diddorol a pherthnasol fel adeiladu tŷ gwydr o boteli plastig wedi'u hailgylchu a gasglwyd gan ddisgyblion ac aelodau o'r gymuned.

**Addysgu: Anfoddhaol**

Mae gan bron bob un o'r athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn fodelau rôl addas. Mae'r rhan fwyaf o athrawon wedi datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion ac maent yn rheoli ymddygiad yn dda. Mae mwyafrif o athrawon yn cynllunio'u gwersi'n dda ac mae iddynt nodau ac amcanion priodol. Mewn tua hanner y gwersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn gosod tasgau heriol a diddorol ar gyfer disgyblion. Ym mwyafrif y dosbarthiadau, mae athrawon yn datblygu medrau gwrando a siarad disgyblion yn dda. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn rhoi adborth llafar da i ddisgyblion ar eu tasgau ac maent yn eu helpu i wella'u gwaith.

Mewn tua hanner y gwersi, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i sicrhau bod y rhediad yn briodol a bod digon o weithgareddau diddorol a heriol i ddisgyblion eu cwblhau. Mewn rhai gwersi, nid yw'r addysgu yn rhoi digon o ryddid i ddisgyblion weithio'n annibynnol, i ddatblygu eu syniadau eu hunain a dod yn ddysgwyr annibynnol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn rhoi gormod o arweiniad i ddisgyblion ac yn ateb eu cwestiynau yn lle annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. Mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad gwael yn ddigon da ac nid ydynt yn gwneud yn siŵr fod pob disgybl yn gweithio'n ddiwyd. Mewn tua hanner y gwersi, nid yw athrawon yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu a meddwl. Nid yw ansawdd yr holi ym mwyafrif y gwersi yn helpu athrawon i wybod a yw disgyblion yn deall y gwaith neu os ydynt yn gwneud digon o gynnydd. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn gofyn i ddisgyblion esbonio'u hatebion nac yn eu hannog i roi atebion manylach.

Mae mwyafrif yr athrawon yn marcio llyfrau disgyblion yn rheolaidd, ond mae ansawdd y marcio a'r asesu yn amrywio gormod rhwng pynciau. Ym mwyafrif yr achosion, nid yw athrawon yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith. Nid yw tua hanner yr athrawon yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn gwneud y cywiriadau a argymhellir i'w gwaith neu fod disgyblion yn cwblhau eu holl waith. Mae'r ysgol wedi cyflwyno system olrhain newydd yn ddiweddar i gasglu a dadansoddi data disgyblion. Nid yw wedi cael effaith ar ddeilliannau eto.

Mae'r ysgol yn rhoi adroddiadau rheolaidd a manwl i rieni a gofalwyr ar gynnydd disgyblion. Cânt un adroddiad cynnydd interim ac un adroddiad ar ddiwedd blwyddyn. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth fanwl i rieni a gofalwyr am bresenoldeb a chynnydd eu plentyn ym mhob pwnc a sylwadau adeiladol ar sut y gallant wella'u gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae gan yr ysgol drefniadau addas i annog disgyblion i fabwysiadu ffordd iach o fyw, gwella'u lles a chyfrannu at y gymuned leol a'r gymuned ehangach. Mae ffreutur yr ysgol, y 'Bwyty', yn cynnig dewis cytbwys o brydau. Mae'r cwricwlwm, timau chwaraeon yr ysgol a gweithgareddau 5x60 yn cynnig cyfleoedd amrywiol i bob disgybl fabwysiadu ffordd iach o fyw.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol i gefnogi datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol ei disgyblion. Mae wedi datblygu arweiniad manylach yn ddiweddar i diwtoriaid dosbarth gyflwyno gwersi addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae'r ysgol wedi rhoi systemau priodol ar waith i fynd i'r afael ag absenoldeb, ac mae wedi sicrhau gwelliannau cymedrol mewn presenoldeb. Er bod gweithdrefnau i sicrhau safonau ymddygiad uchel gan bob disgybl yn yr ysgol, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar ymddygiad gwael rhai disgyblion mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol i ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth i alluogi disgyblion i wneud dewisiadau priodol ar adegau allweddol yn eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion penodol disgyblion unigol. Mae'r rhain yn cynnwys y gwasanaeth ieuenctid, yr heddlu a'r gwasanaeth iechyd. Mae rhaglen gyfoethogi werthfawr yn cefnogi lles disgyblion, gan gynnwys ystod o weithgareddau chwaraeon, ymweliadau diwylliannol a chyrsiau preswyl.

Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynorthwyo'n dda. Mae'r broses adolygu flynyddol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn bodloni gofynion statudol. Mae cynlluniau addysgol unigol yn nodi targedau dysgu yn effeithiol. Mae athro arbenigol yn cynllunio cymorth gwerthfawr a thargedig ar gyfer unigolion. Mae systemau defnyddiol ar waith i sicrhau bod rhieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hysbysu'n dda am addysg eu plentyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion.

## Yr amgylchedd dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu cymuned gynhwysol lle caiff pob disgybl gyfle priodol i fanteisio ar gyfleoedd dysgu yn Gymraeg neu yn Saesneg i fodloni eu hanghenion. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn datblygu ethos dwyieithog cryf. Mae'r ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd gofal a pharch at bob un o'r staff a'r disgyblion yn dda ac mae'n gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae ganddi drefniadau priodol i herio rhagfarn a stereoteipio. Gwerthoedd craidd yr ysgol yw gonestrwydd, parch, hunan-

barch, goddefgarwch a chyfrifoldeb. Mae'r gwerthoedd hyn yn ategu perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn cefnogi ethos yr ysgol gan fod eu hymddygiad aflonyddgar yn tarfu ar ddysgu eu cyfoedion yn y dosbarth.

Er bod rhywfaint o'r adeilad yn hen, caiff ei gynnal yn dda, ac mae'n darparu amgylchedd dysgu pleserus. Mae gan yr ysgol adnoddau priodol, gan gynnwys offer cyfrifiadurol, i fodloni anghenion athrawon a disgyblion. Mae tir ac adeiladau'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu addas ac fe gaiff mynediad ei fonitro amser egwyl ac amser cinio gan staff a disgyblion hŷn.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi methu atal y dirywiad mewn safonau am y pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, er mis Ebrill 2015, gwnaed newidiadau sylweddol i gyfansoddiad a rolau uwch dîm rheoli'r ysgol. Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir yn gyflym ar gyfer gwella deilliannau disgyblion. Mae eu blaenoriaethau a'u targedau yn gosod cyfeiriad ac uchelgais ar gyfer yr ysgol yn dda. Nid yw'r newidiadau hyn wedi cael digon o amser i effeithio ar wella ansawdd yr addysgu neu'r deilliannau ar draws yr ysgol.

Er Medi 2015, mae uwch arweinwr wedi dechrau herio tanberfformio ymhlith staff yn fwy trylwyr. Oherwydd eu hymrwymiadau addysgu, nid yw uwch arweinwyr wedi cael digon o amser i effeithio ar feysydd tanberfformio allweddol. Mae arweinwyr canol ac athrawon yn cael eu dwyn i gyfrif yn fwy effeithiol erbyn hyn. Mae arweinwyr canol yn fwy atebol am berfformiad eu hadrannau a'u hathrawon am y cynnydd a wna disgyblion yn eu gwersi. Fodd bynnag, nid yw prosesau rheoli perfformiad a threfniadau rheolaeth llinell wedi'u datblygu ddigon. Er enghraifft, mae amcanion rheoli perfformiad yn rhy annelwig, ac yn gyffredinol, nid ydynt yn gweddu'n ddigon agos i anghenion yr ysgol nac anghenion staff unigol. Yn ychwanegol, ni wnaed unrhyw drefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff cymorth. Mae arweinwyr yn cydnabod y gwendidau hyn ac maent yn dechrau rhoi systemau tynnach ar waith i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Mae mwyafrif yr arweinwyr canol yn rheoli a chefnogi eu hadrannau'n dda. O ganlyniad, mae deilliannau disgyblion yn gyson dda yn y pynciau hyn. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae ansawdd arweinyddiaeth ganol ar draws yr ysgol yn rhy amrywiol. O ganlyniad, mae deilliannau disgyblion mewn lleiafrif o bynciau yn wael ac mae ansawdd yr addysgu'n amrywio gormod.

Mae gan y corff llywodraethol strwythurau a phwyllgorau priodol ar waith, ac mae'n rhoi cymorth addas i'r ysgol. Yn benodol, mae llywodraethwyr wedi rheoli cyllid yr ysgol yn dda dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi helpu i leihau'r diffyg yng nghyllideb yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr wedi defnyddio data perfformiad yn ddigon da i herio arweinwyr yn gadarn ar y dirywiad yn neilliannau disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf. Hefyd, mae dealltwriaeth llywodraethwyr o ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol yn gyfyngedig.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Cyn mis Medi 2015, nid oedd gan yr ysgol brosesau trylwyr ac effeithiol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yr ysgol. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth newydd yn datblygu dull mwy trylwyr o hunanarfarnu, yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn helpu uwch arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd clir i'w gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn werthusiad cynhwysfawr, arfarnol a gonest o berfformiad presennol.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn cysylltu'n dda ag adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan, ac mae'n cynnwys targedau uchelgeisiol, camau gweithredu addas, graddfeydd amser, cyfrifoldebau a meini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, nid yw rhai camau gweithredu'n cynnwys digon o fanylion penodol ar sut i wella meysydd addysgu ac asesu allweddol.

Mae'r calendr sicrhau ansawdd ysgol gyfan newydd yn dangos bod gweithgareddau hunanarfarnu defnyddiol yn cael eu cynllunio'n fanwl i alluogi'r ysgol i nodi meysydd allweddol i'w gwella. Mae arweinwyr a rheolwyr yn dechrau casglu tystiolaeth uniongyrchol trwy ddadansoddi data yn fanwl, arsylwadau gwersi cyson a chraffu ar waith disgyblion. Mae arweinwyr yn gwrando ar farn disgyblion ar sut i wella'r ysgol, sydd wedi arwain at god newydd ar gyfer ymddygiad disgwyliedig gan ddisgyblion. Fodd bynnag, mae'r newidiadau hyn wedi digwydd yn rhy ddiweddar i allu cael effaith sylweddol ar ansawdd a safonau. Mae hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella wedi bod yn aneffeithiol o ran gwella safonau dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae data wedi cael ei ddadansoddi'n drylwyr, mae barnau o arsylwadau gwersi wedi bod yn rhy hael ac ni chymerwyd camau gweithredu digonol i wella asesu yn dilyn craffu ar waith disgyblion.

Mae ansawdd adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn anghyson. Caiff data ei ddadansoddi'n foddhaol mewn tua hanner yr adroddiadau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys arfarniad o ansawdd yr addysgu, yr asesu a'r arweinyddiaeth. Nid yw llawer o gynlluniau gwella adrannol yn nodi strategaethau na phwyntiau gweithredu effeithiol i wella meysydd pwysig ac nid yw'r targedau'n ddigon penodol na mesuradwy. Mae'r pennaeth dros dro yn rhoi adborth cywir a chyson i'r holl arweinwyr canol ar sut i wella'r adroddiadau hunanarfarnu a'r cynlluniau gwella adrannol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd annigonol o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf, fel codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 a datblygu cysondeb yn y modd y mae arweinwyr y cwricwlwm yn gwella ansawdd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol wedi datblygu ystod addas o bartneriaethau, sy'n darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion astudio ystod briodol o gyrsiau ac effeithio'n briodol ar safonau yn y chweched dosbarth, yn ogystal â lles disgyblion.

Trwy gydweithio effeithiol ag ysgolion uwchradd lleol a dau goleg addysg bellach, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm amrywiol a gwerthfawr ar gyfer y chweched

dosbarth ac yng nghyfnod allweddol 4. Caiff hyn ei gynllunio'n dda ac mae'r ysgol yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hon trwy gyfarfodydd partneriaeth addas bob hanner tymor a chyfathrebu rheolaidd rhwng darparwyr.

Ceir partneriaeth gadarn rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae gan rieni rôl bwysig ym mywyd yr ysgol, gan gynnwys gwirfoddoli i gefnogi'r ysgol bob blwyddyn mewn prosiect cymunedol lleol i godi swm sylweddol o arian. Mae'r ysgol yn gwrando ar ei rhieni ac mae wedi gwella'i darpariaeth gwyddoniaeth i gynnwys cynnig gwyddoniaeth driphlyg mewn TGAU o ganlyniad i'w cais.

Mae'r ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y gymuned trwy weithgareddau fel y gweithdai ysgrifennu yn y ganolfan gelfyddydau leol a chynyrchiadau drama ar gyfer cartref preswyl lleol.

Mae'r rhaglen gynhwysfawr i helpu disgyblion symud ymlaen o'r ysgol gynradd yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon da i sicrhau cynnydd priodol yn eu dysgu a'u medrau.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn defnyddio'i staff yn dda ar y cyfan i fodloni anghenion disgyblion, ac mae gan athrawon yr arbenigedd perthnasol i gyflwyno'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r cyswllt rhwng y datblygiad proffesiynol a ddarperir i staff a blaenoriaethau'r ysgol yn ddigon cryf, ac nid yw'r ysgol yn sicrhau datblygiad proffesiynol ei staff yn ddigonol. Mae cydlynu datblygiad proffesiynol mewn meysydd allweddol fel arweinyddiaeth, addysgu a medrau wedi bod yn wan.

Mae adnoddau ariannol, fel y grant amddifadedd disgyblion a'r grant gwelliant addysgol, yn targedu meysydd pwysig i'w gwella. Fodd bynnag, ni chaiff adnoddau o'r grantiau hyn eu nodi yng nghynllun gwella'r ysgol. O ganlyniad, ceir diffyg cydlyniad rhwng y tri chynllun hyn. Mae'r grant amddifadedd disgyblion yn canolbwyntio'n dda ar y cyfan ar wella cymorth a deilliannau ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Hyd yn hyn, mae gwaith yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion o gefndiroedd difreintiedig wedi effeithio'n bennaf ar wella'u cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd annigonol mewn gwella medrau Saesneg y grŵp hwn.

